AMGUEDDFA CYMRU

# Chwilfrydig Am Gelf! yn Amgueddfa Cymru



Rydyn ni'n edrych ymlaen i'ch croesawu chi i **weithdy Chwilfrydig Am Gelf yn Amgueddfa Cymru** yn fuan.

I helpu'r disgyblion i gael y gorau o'r sesiynau, dyma rai syniadau am drafodaethau a gweithgareddau i'w gwneud ymlaen llaw:

## Gwyliwch ein fideo cyflwyno Oriel Gelf

https://youtu.be/yzeyfS1IG7c

Fersiwn BSL: https://youtu.be/SbyNzZNhbhI

Dewch i gyfarfod Siân yn yr orielau celf a dysgu mwy am gasgliadau celf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

## Ewch ar daith rithwir drwy'r Orielau Celf

https://my.matterport.com/show/?m=VLWSNX62ax8

Crwydrwch yr orielau a mwynhau'r wledd o gelf yma yng Nghymru!

## Trafodaeth Dosbarth/Grŵp

Ar ôl gwylio'r fideo a mynd ar ymweliad rhithwir trafodwch gyda'r dosbarth – **Beth arall ydych chi am ei ddysgu am Orielau Celf?** Meddyliwch am gwestiynau i'w holi i'r hwylusydd yn y Gweithdy

## Beth i'w ddisgwyl yn y gweithdy:

Ymunwch â ni mewn sesiwn ddigidol ryngweithiol sy'n cyflwyno rhai o weithiau celf amrywiol Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Bydd ein hwylusydd yn eich twys ar daith rithiol o baentiadau, cerameg, ffotograffau a cherfluniau. Byddwn ni'n defnyddio'r gweithiau i rannu syniadau a barn am gelf ac i drafod teimladau a naws. Bydd cyfle i chi wedyn fynd ati eich hun, ac arbrofi â lliw, siâp a maint i greu gwaith celf cyflym.

**Bydd y gweithdy yn para am 45 munud – 1 awr.**

## Paratoi at y gweithdy:

Yn ystod y gweithdy bydd gweithgareddau byr yn gysylltiedig â gwahanol weithiau celf, felly mae'n bwysig cael ychydig ddeunyddiau sylfaenol wrth law er mwyn i'r disgyblion allu cymryd rhan.



**Ar gyfer y gweithgaredd lliwio 2 funud**, gwnewch yn siŵr fod gan bob plentyn bapur A4 a chreons neu bensiliau lliw.

**Ar gyfer y gweithgaredd maint**, gwnewch yn siŵr fod ffon fetr yn y dosbarth. Byddwn ni'n edrych ar waith celf mawr, a bydd y ffon fetr yn help i'r plant ddeall bod rhai gweithiau celf yn anferth. Efallai mor fawr â nhw!

**Ar gyfer y gweithgaredd 'Sut ydych chi’n teimlo?'**, gwnewch yn siŵr fod gan bob plentyn bapur a phensil er mwyn tynnu llun wyneb, neu ysgrifennu gair sy'n cyfleu sut mae ffotograff yn gwneud iddyn nhw deimlo

Gweithdy **rhyngweithiol** yw hwn, a bydd yr hwylusydd yn holi ac ateb cwestiynau.

Er mwyn i'r dosbarth gael y gorau o'r sesiwn, cofiwch:

- Gosodwch y camera fel ein bod ni'n gallu gweld y dosbarth cyfan
- Gwnewch yn siŵr bod y dosbarth cyfan yn gallu gweld a chlywed
- Meddyliwch am y ffordd orau i'r dosbarth holi ac ateb cwestiynau. Gallwch chi wneud hyn drwy'r athro, neu greu 'man siarad' lle gall y plant sefyll yn eu tro
- Byddwch yn bresennol a chyfrifol am y disgyblion trwy gydol y sesiwn a rheoli'r dosbarth
- Sicrhewch fod eich cyfrifiadur ymlaen a bod y cysylltiadau yn gweithio 15 munud cyn y gweithdy. Bydd yr hwylusydd ar gael am 5/10 munud cyn y gweithdy i ateb cwestiynau'r athro.

**Bydd y ddolen Teams i ymuno â'r gweithdy yn yr e-bost cadarnhau.**




# Ar ôl y Gweithdy:

## Her gerflunio

Rydych chi wedi gweld rhai o'r cerfluniau sydd i'w gweld yn yr Amgueddfa. Maen nhw wedi'u creu o ddeunyddiau gwahanol, a gallwch chi greu cerfluniau o ddeunyddiau gwahanol hefyd. Beth am greu cerflun i'w arddangos? Cofiwch feddwl am deitl i'r cerflun, a rhoi eich enw wrtho hefyd.



## Gallwch chi fod yn gerflun!

Mae llawer o'r cerfluniau yn yr Amgueddfa yn bobol yn gwneud gwahanol bethau.

Beth am sefyll fel cerflun?

Gallech chi fod yn dawnsio, neu'n cicio pêl-droed. Pa mor hir allwch chi sefyll fel cerflun?

Anfon lluniau o'ch gwaith!
**@Amgueddfa_Learn**